1 Cyflwyniad 3
1.1 Cefndir a chyd-destun polisi 3
1.2 Methodoleg 4
1.2.1 Ystyriaethau / cyfyngiadau 5
2 Canfyddiadau 5
2.1 Pa lefelau hyfedredd mae dysgwyr yn eu cyrraedd wedi iddynt dderbyn addysg drochi hwyr, a sut mae hyn yn amrywio yn ôl oedran dysgwyr? 6
2.1.1.1 Casgliadau ..... **Error! Bookmark not defined.**
2.2 Pa lefel iaith sydd ei angen er mwyn astudio pynciau eraill trwy gyfrwng yr iaith darged? 7
2.2.1.1 Pwyntiau trafod 8
2.3 Beth ydym yn gwybod am hyder dysgwyr yn yr iaith darged ar ôl derbyn addysg drochi hwyr? 8
2.3.1.1 Pwyntiau trafod 9
2.4 Ffactorau y tu hwnt i reolaeth darparwyr: Cyd-destun a nodweddion y dysgwyr 9
2.4.1 Beth yw cyfraniad rhesymau dysgwyr dros dderbyn addysg drochi hwyr, eu cymhelliant i wneud, a'u hagwedd tuag at yr iaith darged? Beth yw cyfraniad agweddau rhieni/gwarcheidwaid? 9
2.4.1.1 Pwyntiau trafod 11
2.4.2 Beth yw cyfraniad cyd-destun sosio-ieithyddol y dysgwyr ac agweddau'r gymdeithas ehangach tuag at yr iaith? 11
2.4.2.1 Pwyntiau trafod 11
2.5 Ffactorau o fewn reolaeth darparwyr: Pa fodelau a dulliau addysgu, a pha gefnogaeth sy'n arwain at y deilliannau gorau ar wahanol oedrannau? 12
2.5.1 Pa sgiliau sydd fwyaf perthnasol i ddysgu iaith ar wahanol oedrannau mewn addysg drochi hwyr? 12
2.5.1.1 Pwyntiau trafod 13
2.5.2 Beth yw perthynas dulliau addysgu â hyfedredd ieithyddol dysgwyr? 13
2.5.2.1 Pwyntiau trafod 14
2.5.3 Beth yw perthynas dulliau addysgu á hyder dysgwyr yn yr iaith darged? 14
2.5.3.1 Pwyntiau trafod 15
2.5.4 Defnydd iaith gyntaf fel rhan o'r ddarpariaeth drochi 15
2.5.4.1 Pwyntiau trafod 16
2.5.5 Awyrgylch y dosbarth 16
2.5.5.1 Pwyntiau trafod 17
2.5.6 Sut y gall cyfleoedd cymdeithasol y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ond sy'n rhan o'r ddarpariaeth drochi, gyfrannu at effeithiolrwydd addysg drochi hwyr? 17

2.5.6.1 Pwyntiau trafod 17
2.5.7 Sut y gall gefnogaeth i rieni/gwarcheidwaid gyfrannu at effeithiolrwydd darpariaeth drochi hwyr eu plant? 17
2.5.7.1 Pwyntiau trafod 18
2.5.8 Sut mae darpariaeth ôl-ofal a chefnogaeth ar ôl y cyfnod trochi hwyr yn effeithio ar y lefelau ieithyddol mae dysgwyr yn eu cyrraedd? 18
2.5.8.1 Pwyntiau trafod 19
3 Rhestr Gyfeiriadau 20

Ffactorau i awdurdodau lleol eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am gynnig darpariaeth drochi hwyr i ddysgwyr ar wahanol gyfnodau addysg: papur sgopio

1 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn adrodd ar adolygiad o'r dystiolaeth ar ystyriaethau wrth gynnig darpariaeth drochi hwyr. Y nod oedd deall y sail dystiolaeth sy'n bodoli yn y maes er mwyn cynnig arweiniad i awdurdodau lleol ar ffactorau i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau am gynnig darpariaeth drochi hwyr i ddysgwyr o wahanol oedrannau.

Amcanion y prosiect oedd:

- adolygu'r dystiolaeth ryngwladol, gyda ffocws penodol ar gyd-destunau sosio-ieithyddol sy'n berthnasol i'r Gymraeg yng Nghymru
- archwilio beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud am bersbectif dysgwyr, rhieni/gwarcheidwaid ac ymarferwyr mewn unedau/canolfannau trochi ac ysgolion
- archwilio beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud am y lefel(au) o hyfedredd ieithyddol mae dysgwyr yn eu cyrraedd wrth dderbyn addysg drochi ar wahanol gyfnodau mewn addysg / ar wahanol oedrannau
- archwilio'r ffactorau sy'n cyfrannu at y lefelau o hyfedredd ieithyddol ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth drochi, o fewn rheolaeth darparwyr a thu hwnt i'w rheolaeth.

Defnyddir termau amrywiol yn y dystiolaeth ryngwladol am drochi ar wahanol oedrannau. Ar gyfer pwrpas y papur hwn, defnyddir y termau 'trochi cynnar' i olygu trochi cyn 7 oed a 'trochi hwyr' neu 'hwyrddyfodiaid' i gyfeirio at drochi yn 7 oed neu'n uwch (Llywodraeth Cymru, 2019). Rhoddir manylion am yr oedran a drochwyd y dysgwyr, lle mae hyn wedi ei nodi.

1.1 Cefndir a chyd-destun polisi

Mae *Cymraeg 2050* (Llywodraeth Cymru, 2017) yn nodi mai addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw'r prif ddull o ddatblygu sgiliau Cymraeg plant a chreu siaradwyr newydd. Mae ehangu mynediad at addysg Gymraeg yn un o nodau Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, i ganiatáu i ddysgwyr Cymraeg ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi cyfrifoldeb ar bob awdurdodol lleol i annog galw am addysg drochi hwyr a chyfranogiad ynddi, ac i ddarparu gwybodaeth a chyngor am y ddarpariaeth, gan gynnwys i blant a rhieni.

Mae'r gwaith yn adeiladu ar ymchwil flaenorol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru:

- Adolygiad cwmpasu cyflym o dystiolaeth am ddulliau neu ymyriadau sy'n ymwneud â throchi hwyr, darpariaeth iaith ddwys a darpariaeth iaith ar gyfer disgyblion sydd wedi profi toriad neu fwlch yn eu profiad trochi (Rhys, 2021).

Archwiliodd yr adolygiad ddulliau neu ymyriadau am drochi hwyr, ac, yn ehangach na'r papur hwn, roedd hefyd yn cwmpasu trefniadau dysgu iaith ddwys, megis

Saesneg fel iaith ychwanegol, a darpariaeth iaith i ddysgwyr a oedd wedi cael toriad neu fwlch yn eu profiad trochi, mewn ymateb i sefyllfa pandemig COVID-19. Trafododd yr adolygiad bwyntiau mynediad optimaidd am addysg drochi, gan gynnwys cymharu trochi cynnar a hwyr, ac fel rhan o hyn, cyffyrddodd ar ddeilliannau dysgwyr trochi hwyr. Trafododd hefyd ffactorau logistaidd sy'n hwyluso neu'n cefnogi rhaglenni trochi hwyr, cymorth y tu allan i'r ddarpariaeth, rôl ymarferwyr ac amser mewnbwn yn y trochi. Archwiliodd yr adolygiad ddulliau gweithredu yn yr ystafell ddosbarth hefyd.

Mae'r papur hwn yn adeiladu ar yr adolygiad trwy archwilio ffactorau sy'n cyfrannu at ddarpariaeth addysg drochi hwyr effeithiol yn ôl oedrannau'r dysgwyr, ac wrth gyflwyno addysg drochi hwyr ar wahanol gyfnodau o addysg. Un o gyfraniadau unigryw'r papur yw archwilio cyfraniad nodweddion a chyd-destun y dysgwyr. Mae'r papur hefyd yn adeiladu ar y sail dystiolaeth am ddulliau addysgu, gan ddadansoddi yn ôl oedran dysgwyr a deilliannau ieithyddol dysgwyr. Mae'r papur hefyd yn rhoi sylw i gyfraniad elfennau eraill o'r profiad trochi megis darpariaeth ôl-ofal a chyfleodd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

- Adroddiad a oedd yn mapio darpariaeth bresennol addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru (Young, 2021)

Nod yr ymarfer mapio hwn oedd llunio darlun o'r ddarpariaeth addysg drochi hwyr oedd yn bodoli mewn rhai awdurdodau addysg lleol ar y pryd, a deall rhai o'r heriau a'r cyfleoedd a oedd yn codi wrth i'r ddarpariaeth gael ei chynllunio a'i rhoi ar waith. Seiliwyd yr adroddiad ar waith pen desg a chyfweliadau á rhanddeiliaid.

Pwrpas gwahanol oedd gan y papur hwn, a dull gwahanol o gasglu gwybodaeth.

- Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth ar gyrchddulliau a dulliau effeithiol mewn addysg drochi (Jones, K, *et al.*, 2024)

Bwriad yr adolygiad hwn oedd cynnig arweiniad i ymarferwyr, hyfforddwyr a llunwyr polisi ar sut i ddarparu addysg drochi effeithiol i ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed yng Nghymru. Y ffocws oedd dulliau a chyrchddulliau effeithiol o ddarparu addysg drochi, gan gynnwys ar gyfer trochi cynnar, canolig a hwyr. Roedd yr adolygiad yn archwilio tystiolaeth am gyrchddulliau ar gyfer dysgwyr o amrywiaeth o gefndiroedd a phrofiadau ieithyddol blaenorol.

Mae'r papur hwn yn adeiladu ar yr adolygiad trwy edrych ar y dystiolaeth am ddulliau a chyrchddulliau effeithiol ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau o fewn addysg drochi hwyr yn benodol. Mae'r papur hefyd yn archwilio ffactorau y tu hwnt i ddulliau a chyrchddulliau addysg sy'n arwain at ddarpariaeth drochi effeithiol.

1.2 Methodoleg

Cynhaliwyd yr adolygiad yn fewnol gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru, fel rhan o interniaeth PhD, gyda chymorth gan Wasanaethau Llyfrgell Llywodraeth Cymru. Roedd yr adolygiad yn un archwiliadol, â'r bwriad o sgopio'r dystiolaeth a oedd yn bodoli yn y maes. Cynhaliwyd chwiliad eang, felly, am ffynonellau o 2000 ymlaen. Y meini prawf eithrio oedd:

Dyddiad	Cyn 2000
Math o ddeunydd	Eitemau dyblyg, blogiau, erthyglau papur newydd
Iaith	Ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg, Saesneg, Ffrangeg a Sbaeneg: Crynodeb a chorff y testun ddim ar gael yn Gymraeg, Saesneg, Ffrangeg neu Sbaeneg

Cynhaliwyd dau gam sgrinio: ar sail teitl a chrynodeb, ac yna ar sail testun llawn. Cymhwyswyd meini prawf cynnwys ac eithrio systematig yn deillio o nodau ac amcanion yr adolygiad. Caniatawyd elfen o hyblygrwydd, gan gydnabod bod gwybodaeth berthnasol mewn rhai eitemau â sgôp mwy eang.

Canfuwyd 178 o eitemau ac ychwanegwyd 18 eitem roedd yr ymchwilydd yn ymwybodol ohonynt, gan gynnwys rhai oedd wedi eu cyhoeddi cyn 2000 ond pennwyd eu bod yn berthnasol iawn i'r astudiaeth hon. Ar ddiwedd y broses sgrinio, roedd 34 eitem wedi eu cynnwys yn yr adolygiad. Mae'r tabl yn Adran 2 yn rhoi crynodeb o'r eitemau, ynghyd â nodi'r gwledydd/tiriogaethau a'r ieithoedd sydd dan sylw ynddynt.

1.2.1 Ystyriaethau / cyfyngiadau

Roedd y meini prawf cynnwys yn golygu bod astudiaethau, adolygiadau o'r dystiolaeth ryngwladol ac eitemau'n canolbwyntio ar wledydd penodol - yn adolygu'r llenyddiaeth o wlad penodol neu'n rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth drochi mewn gwlad/gwledydd penodol – wedi eu cynnwys.

Nid yw bob un o'r 34 eitem sydd wedi eu cynnwys fel rhan o'r adolygiad yn ffocysu ar addysg drochi hwyr; mae rhai eitemau â sgôp mwy eang ac yn cynnwys peth gwybodaeth berthnasol i'r adolygiad hwn. Nid oedd yr eitemau oll yn astudiaethau ymchwil, â rhai yn rhoi trosolygon o sefyllfa addysg drochi mewn gwledydd penodol, ac un arall ar sail arbenigedd yr awdur, yn hytrach nag ar ddata empeiraidd. O ganlyniad i gyfyngiadau amser, nid oedd modd archwilio nac asesu ansawdd yr eitemau unigol a oedd yn sail i'r adolygiadau neu ddadansoddiadau hyn.

Roedd nifer o'r astudiaethau yn canolbwyntio ar wledydd penodol a gall fod ystyriaethau ychwanegol neu wahanol wrth gymhwyso'r canfyddiadau ar gyfer sefyllfa Cymru. Chwiliwyd am eitemau yn y Gymraeg, Saesneg a Ffrangeg felly cydnabyddir y gall fod eitemau mewn ieithoedd eraill nad oeddent wedi eu cynnwys.

2 Canfyddiadau

Roedd yr eitemau'n cwmpasu:

- 19 astudiaeth
- 10 adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol: 7 yn defnyddio dulliau systematig a 3 dadansoddiad byrrach
- 5 eitem yn canolbwyntio ar wledydd penodol:
    - 2 adolygiad o'r lenyddiaeth o wlad penodol
    - 3 trosolwg o ddarpariaeth drochi mewn gwledydd penodol

Mae'r adolygiad yn cwmpasu'r gwledydd a'r ieithoedd canlynol:

Gwledydd/Tiriogaethau	**Ieithoedd**
Cymru	Cymraeg
Yr Almaen	Sorbeg
Canada	Ffrangeg
Gwlad y Basg	Basgeg
Aotearoa (Seland Newydd)	Maori
Iwerddon	Gwyddeleg
Catalwnia	Catalwneg
Hong Kong	Saesneg
Yr Alban	Gaeleg yr Alban
Hawaii	Iaith Hawaii

2.1 Pa lefelau hyfedredd mae dysgwyr yn eu cyrraedd wedi iddynt dderbyn addysg drochi hwyr, a sut mae hyn yn amrywio yn ôl oedran dysgwyr?

Awgryma'r dystiolaeth fod y lefel hyfedredd mae disgyblion yn cyrraedd ar ôl derbyn addysg drochi hwyr yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau. Mae rhai ffactorau y tu hwnt i reolaeth darparwyr, megis nodweddion a chyd-destun y dysgwr ond hefyd agweddau'r teulu a'r gymdeithas tuag at yr iaith darged a'r cyd-destun sosio-ieithyddol. Mae ffactorau eraill o fewn rheolaeth darparwyr, megis dulliau addysgu. Archwilir y ffactorau hyn ymhellach yn y papur hwn.

Nid oedd llawer o dystiolaeth yn manylu ar ddeilliannau ieithyddol dysgwyr trochi hwyr ond roedd rhai astudiaethau'n cyffwrdd ar hyn. Nododd un astudiaeth a oedd yn adolygiad Johnstone (2002) o'r dystiolaeth ryngwladol fod dysgwyr trochi hwyr yn cyrraedd 'functional proficiency' yn Ffrangeg yn sgiliau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu ond ni ddiffiniwyd beth roedd hyn yn ei olygu. Roedd papur arall yn adolygiad Johnstone (2002) yn mynegi deilliannau dysgwyr trochi hwyr yn nhermau disgrifyddion byr e.e. 'could participate adequately in conversation', ond ni nodwyd lefelau ieithyddol.

Nododd Jones a Wilson (2012), yn eu dadansoddiad o fodelau trochi rhyngwladol, gan gyfeirio at ddogfennau Bwrdd yr Iaith Gymraeg am y "Prosiect Addysg Drochi Hwyr"[1], fod dysgwyr trochi hwyr, a oedd yn dechrau'r ddarpariaeth ar ddechrau'r ysgol uwchradd, yn 11 oed, yn cyrraedd lefelau rhuglder tebyg neu well na dysgwyr sydd wedi bod trwy'r brif ffrwd, er na nodwyd ar pa bwynt cynhaliwyd yr asesiad o'u sgiliau ieithyddol.

Nododd peth dystiolaeth fod dysgwyr trochi hwyr weithiau yn gallu cyrraedd yr un lefelau ieithyddol á dysgwyr trochi cynnar. Nododd un o'r erthyglau yn nadansoddiad o'r dystiolaeth ryngwladol o Ganada gan Lindholme-Leary a Genesee (2014) y gall dysgwyr sy'n dechrau addysg drochi'n 11 oed gyrraedd yr un lefelau á dysgwyr trochi cynnar. Cynigiwyd rhesymau dros hyn gan gynnwys sgiliau gwybyddol mwy datblygedig dysgwyr hŷn a'r ffaith bod y dysgwyr hŷn wedi dewis trochi hwyr ac felly bod ganddynt gymhelliant i lwyddo (Lindholme-Leary a Genesee, 2014). Manylir ar ffactorau hyn yn adran 2.5.1 a 2.4.1, yn ôl eu trefn.

[1] Nid oedd y dogfennau gwreiddiol hyn ar gael i'r awdur ar adeg ysgrifennu'r papur hwn.

Dangosodd un astudiaeth bod angen bod yn ofalus wrth geisio mesur cynnydd ieithyddol dysgwyr addysg drochi hwyr. Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng canlyniadau dysgwyr trochi hwyr yn yr Wyddeleg yn astudiaeth Ó Muircheartaigh a Hickey (2008) yn lwerddon a dysgwyr trochi cynnar yng nghanlyniadau arholiadau'r *Junior Certificate*, a oedd ond yn fesur o 'allu academaidd Gwyddeleg' a dealltwriaeth darllen. Fodd bynnag, nid oedd y *Junior Certificate* yn profi sgiliau llafar ac yn ôl yr awduron, nid oedd yn 'sufficiently sensitive' i gyfleu'r ystod o allu yn y Wyddeleg. Dim ond wrth ddefnyddio profion mwy trylwyr y *C-test*[2] y gwelwyd bod gwahaniaethau ieithyddol arwyddocaol rhwng y dysgwyr trochi cynnar a'r dysgwyr trochi hwyr, â hynny o blaid y dysgwyr trochi cynnar. Ar y pwynt o brofi, roedd y dysgwyr ym mhedwaredd flwyddyn addysg drochi hwyr ac wedi derbyn tua 3,600 awr o Wyddeleg, o'u cymharu â'r dysgwyr trochi cynnar a oedd wedi derbyn tua 10,000 awr o addysg Wyddeleg.

2.1.1.1 Pwyntiau trafod

Nid oedd llawer o sail dystiolaeth yn manylu ar lefelau hyfedredd ieithyddol ar ôl derbyn trochi hwyr, er bod peth tystiolaeth yn cyffwrdd ar hyfedredd ar lefel uchel. Dengys y dystiolaeth bod y lefelau yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, ac archwilir y rhain ymhellach yn y papur hwn.

2.2 Pa lefel iaith sydd ei angen er mwyn astudio pynciau eraill trwy gyfrwng yr iaith darged?

Mae'r adran hon yn archwilio beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud am y lefel(au) sydd ei angen yn yr iaith darged er mwyn astudio pynciau eraill trwy gyfrwng yr iaith. Seilir y canfyddiadau hyn ar drosolwg o Ganada a Hong Kong, trafodaeth ar drochi yng Nghanada ar sail arbenigedd yr awdur, adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol a thair astudiaeth. Roedd cytundeb bod angen lefel digon uchel i ganiatáu i ddysgwyr lwyddo wrth astudio pynciau eraill ond nid oedd trafodaeth fanwl ar beth roedd hyn yn ei olygu yn nhermau lefelau.

Un ystyriaeth bwysig yn y dystiolaeth oedd yr angen i gymryd sylw o'r 'bwlch hyfedredd' sy'n cynyddu ag oedran. Eglurodd Johnson a Swain (1994) fod problemau'n codi oherwydd y bwlch rhwng lefel dysgwyr yn yr iaith darged a'r lefel sydd ei angen er mwyn dilyn cynnwys y cwricwlwm ar gyfer eu hoedran trwy'r iaith darged. Gan fod addysg gynradd gynnar yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau llythrennedd, gall dysgwyr trochi cynnar ddatblygu'r sgiliau hyn trwy'r ail iaith a'u trosglwyddo i'w hiaith gyntaf (Netten 2007). Ar y llaw arall, mae dysgwyr trochi hwyr yn dysgu cwricwlwm sy'n galw am sgiliau gwybyddol uwch, ac mae'n rhaid sicrhau bod ganddynt iaith addas i'w trafod, gan gynnwys yr eirfa a'r gystrawen i ddisgrifio, esbonio a rhesymu (Kong 2008). Mae cau'r bwlch hyfedredd hwn yn ystyriaeth bwysig i ddarparwyr trochi hwyr, felly.

Un o ddiffygion y system addysg drochi Saesneg yn Hong Kong, yn ôl Kong (2008), oedd y ffaith bod dysgwyr trochi hwyr yn mynychu dosbarthiadau pynciau trwy gyfrwng yr iaith darged heb ddysgu'r eirfa na ffurfiau'r iaith sy'n addas er mwyn

[2] Roedd ail hanner bob yn ail gair yn cael ei hepgor (a gair cyntaf ac olaf y frawddeg yn cael eu gadael yn eu cyfanrwydd) a'r dysgwr yn cael cyfarwyddyd i lenwi'r geiriau coll.

iddynt ddeall a chyfrannu i'r wers. Nododd Marsh *et al*. (2000) ddiffygion mewn canlyniadau pynciau megis hanes, gwyddoniaeth a mathemateg dysgwyr yn nosbarthiadau cynnar ysgolion uwchradd Hong Kong o ganlyniad i hyn. Atgyfnerthodd Wannagat (2007) nad oedd lefel Saesneg dysgwyr yn ddigonol wrth adael yr ysgol gynradd yn Hong Kong er mwyn dilyn gwersi'r ysgol uwchradd trwy'r iaith honno heb lawer o fewnbwn ychwanegol yn eu hiaith gyntaf. Mewn ymgais i wella'r sefyllfa hon, cynigia Kong (2008) fframwaith integreiddio iaith gyda chynnwys sy'n cysylltu strwythurau gwybodaeth, strwythurau ieithyddol ac amcanion ieithyddol er mwyn dysgu pynciau.

Erbyn oedran TGAU, roedd y dysgwyr trochi hwyr yn astudiaeth Williams (2002) yng Nghymru wedi eistedd arholiadau TGAU trwy gyfrwng yr iaith darged, a chasglwyd nad oedd canlyniadau'r dysgwyr hyn yn arwyddocaol is na dysgwyr a oedd wedi bod trwy'r brif ffrwd. Roeddent wedi derbyn dwy flynedd o drochi ar wahân (pan ystyriwyd bod y dysgwyr yn barod i ymuno â dysgwyr prif ffrwd, er nad yn hollol rugl) a thair blynedd mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Fodd bynnag, rhaid cofio bod o bosib elfen o duedd dethol ar gyfer y dysgwyr a oedd wedi dewis bod yn rhan o'r ddarpariaeth drochi hwyr.

2.2.1.1 Pwyntiau trafod

Roedd tystiolaeth gymharol gref am bwysigrwydd ystyried y 'bwlch hyfedredd' wrth ddarparu trochi hwyr mewn paratoad ar gyfer ymuno â'r brif ffrwd, h.y. sicrhau bod dysgwyr yn cyrraedd lefelau iaith priodol yn yr iaith darged cyn iddynt dderbyn gwersi mewn pynciau eraill trwy gyfrwng yr iaith, ond nid oedd tystiolaeth am lefelau yn nhermau'r CEFR neu arall.

I'w drafod gan y grŵp: Dylai ddarpariaeth drochi hwyr ystyried a yw dysgwyr, yn enwedig dysgwyr ar lefel uwchradd, yn dysgu ffurfiau iaith priodol ar gyfer dysgu pynciau eraill trwy gyfrwng yr iaith darged.

2.3 Beth ydym yn gwybod am hyder dysgwyr yn yr iaith darged ar ôl derbyn addysg drochi hwyr?

Roedd dwy astudiaeth yn archwilio lefel hyder dysgwyr yn yr iaith darged ar ôl derbyn addysg drochi hwyr.

Canfu Macintyre *et al*. (2002), yn eu hastudiaeth o ddisgyblion 11-14 oed mewn rhaglen trochi hwyr Ffrangeg yng Nghanada, fod bodlonrwydd cyfathrebu yn yr iaith darged yn gysylltiedig â phryder h.y. diffyg hyder yn yr iaith, a hefyd â chymhwysedd canfyddedig yn yr iaith. Canfu'r awduron wahaniaeth mewn lefelau hyder a phryder yn ôl oedran a rhyw. Er bod lefelau pryder a bodlonrwydd cyfathrebu'r merched wedi gwella erbyn blwyddyn 9, nid dyna oedd sefyllfa'r bechgyn. Dadleuodd yr awduron nad yn unig gynnydd yn eu sgiliau iaith dros amser oedd yn gyfrifol am y gostyngiad mewn pryder ymhlith y merched, ond bod cysylltiad hefyd â'r oedran mae bechgyn a merched yn cyrraedd llencyndod. Crybwyllant y byddai archwilio cyflwyno mesurau magu hyder a lleddfu pryder ieithyddol yn y dosbarth yn fuddiol er mwyn mynd i'r afael â hyn.

Yn astudiaeth Ó Muircheartaigh a Hickey (2008) ar y Wyddeleg, un o'r gwahaniaethau mawr rhwng y dysgwyr trochi Gwyddeleg a dderbyniodd addysg

drochi hwyr a'r rhai a dderbyniodd addysg drochi gynnar, a oedd bellach yn cael eu haddysgu yn yr un dosbarth â'i gilydd, oedd y lefelau pryder ymysg y dysgwyr trochi hwyr h.y. diffyg hyder yn y Wyddeleg. Ymddangosodd hyn ym mlwyddyn gyntaf yr ysgol uwchradd (11 oed) ond hefyd yn eu pedwaredd flwyddyn o addysg Wyddeleg ac roedd eu lefelau pryder (wedi'i asesu gan holiadur a oedd yn defnyddio mesurau a datblygwyd gan Gardner (1985)) yn arwyddocaol uwch. Nododd yr awduron y gall pryder ieithyddol rhwystro'r dysgwyr rhag defnyddio'r iaith yn y dosbarth a'r tu allan i'r dosbarth, ac y gall amharu, felly, ar ddatblygiad a defnydd eu sgiliau Gwyddeleg.

2.3.1.1 Pwyntiau trafod

Roedd peth tystiolaeth am lefelau hyder dysgwyr yn yr iaith darged wedi iddynt dderbyn addysg drochi hwyr. Roedd dysgwyr hŷn yn fwy tebygol o deimlo pryder ieithyddol na dysgwyr ifanc, a esboniwyd yn rhannol oherwydd effeithiau llencyndod.

Gallai ymyriadau i leddfu pryderon ieithyddol fod yn gymorth i gynyddu effeithiolrwydd darpariaeth addysg drochi hwyr, yn enwedig ar gyfer dysgwyr hŷn, ar oedran llencyndod.

2.4 Ffactorau y tu hwnt i reolaeth darparwyr: Cyd-destun a nodweddion y dysgwyr

Mae'r adran hon yn archwilio cyfraniad ffactorau y tu hwnt i reolaeth darparwyr ar effeithiolrwydd darpariaeth drochi hwyr, megis rhesymau dysgwyr a'u rhieni/gwarcheidwaid dros ddewis addysg drochi a'u cymhelliant dros wneud, ynghyd â'u hagwedd tuag at yr iaith. Canfuwyd hefyd dystiolaeth am gyd-destun sosio-ieithyddol y dysgwr ac agwedd y gymdeithas at yr iaith.

2.4.1 Beth yw cyfraniad rhesymau dysgwyr dros dderbyn addysg drochi hwyr, eu cymhelliant i wneud, a'u hagwedd tuag at yr iaith darged? Beth yw cyfraniad agweddau rhieni/gwarcheidwaid?

Selir y dystiolaeth ar ddadansoddiad o'r dystiolaeth ryngwladol, dadansoddiad o'r dystiolaeth genedlaethol yng Nghanada ar sail arbenigedd yr awdur, a saith astudiaeth. Dengys y dystiolaeth y gall agweddau dysgwyr at yr iaith darged effeithio ar eu cynnydd ynddi a pha mor aml y maent yn ei defnyddio. Gall hyn gwmpasu agweddau at yr iaith ei hun, at y bobl sy'n siarad yr iaith, at ddysgu'r iaith neu at ddwyieithrwydd.

Un gwahaniaeth rhwng dysgwyr trochi cynnar a dysgwyr trochi hwyr, yn enwedig plant hŷn (yn nosbarthiadau cynradd uwch neu uwchradd) yw bod hwyrddyfodiaid yn tueddu i naill ai gwneud y dewis i drosglwyddo i addysg drochi eu hunain, neu gymryd rhan sylweddol yn y dewis (Netten, 2007). Gwyddom ers amser fod cysylltiad rhwng cymhelliant a llwyddiant (e.e. Lambert a Gardner, 1965). Un rheswm a roddir am pam fod dysgwyr trochi hwyr yn dangos canlyniadau tebyg mewn profion â rhai trochi cynnar yw bod ganddynt gymhelliant i lwyddo a gwneud cynnydd ieithyddol (Lindholme-Leary a Genesee, 2014). Dengys y dystiolaeth fod cymhelliant offerynnol yn ogystal â chymhelliant cynhenid neu integreiddiol yn gallu hybu caffael iaith a'r penderfyniad i barhau â'r iaith (Senar *et al*. 2023; Dołowy-Rybińska 2018). Dadleua Netten (2007) fod addysg drochi hwyr yn addas i ddysgwyr sydd â chymhelliant cryf i ddysgu'r iaith darged.

Atgyfnerthodd Macintyre *et al*. (2002) yn ei astudiaeth o ddysgwyr trochi hwyr Ffrangeg yn yr UDA fod perthynas rhwng oedran dysgwyr a'u cymhelliant i ddysgu'r iaith darged. Amrywiodd cymhelliant y dysgwyr ar wahanol pwyntiau ar eu taith iaith, á chymhelliant ar ei uchaf wrth i ddysgwyr ddechrau dysgu'r iaith, yn lleihau wrth i amser mynd yn ei flaen, ond yn cynyddu wrth i'w gallu yn yr iaith gynyddu.

Dengys y dystiolaeth fod iaith diwylliant poblogaidd pobl ifanc yn yr ardal ble mae dysgwyr yn byw yn dylanwadu ar agwedd dysgwyr tuag ar yr iaith darged. Yn aml, mae'r diwylliant hwn trwy'r iaith fwyafrifol yn gyfan gwbl. Nododd Senar *et al.* (2023), er enghraifft, wrth astudio dysgwyr rhwng 12 a 15 oed o dramor a oedd yn dysgu Catalwneg a Sbaeneg yng Nghatalwnia, fod eu hagwedd at y ddwy iaith yn wahanol gan ddibynnu ar ble ac ar gyfer pa bwrpas yr oeddent yn ei siarad; Catalwneg oedd 'iaith yr ysgol' tra roedd y Sbaeneg yn iaith hamdden a chyfathrebu. Roeddent yn ymagweddu'n fwy positif at y Sbaeneg. Fodd bynnag, newidiodd eu hagweddau wrth iddynt ddod yn fwy cyfarwydd â'r iaith a dechrau ei gwerthfawrogi, ac wrth i'w gallu yn y Gatalwneg gynyddu.

Dengys y dystiolaeth fod gan rieni gymhelliannau gwahanol dros anfon eu plant i addysg drochi hwyr, a gall hyn ddylanwadu ar y gefnogaeth maent yn rhoi i'w plant, ac agweddau'r plant tuag at yr iaith darged. Un o'r prif resymau a chanfuwyd pam fod rhieni nad ydynt yn siarad iaith darged yr ysgol yn dewis anfon eu plant i addysg drochi hwyr oedd oherwydd eu bod yn awyddus iddynt fod yn ddwyieithog. Mae gan y rhieni hyn, yn gyffredinol, agweddau cadarnhaol at yr iaith darged, ond gall eu cymhelliant dros ddewis addysg drochi i'w plant wneud gwahaniaeth i'r ffordd y maent yn ymwneud â'r iaith h.y. rhesymau integreiddiol - cynnig cyfleoedd i'r plant nad oeddent wedi cael eu hunain, neu gymorth iddynt integreiddio i mewn i gymuned newydd, neu resymau offerynnol, megis gweld bod siarad iaith arall yn agor drysau i'r plant yn y dyfodol (Genesee, 1983; Cammarata *et al*., 2025).

Canfu Davies (2022) wahaniaeth rhwng rhieni sy'n ystyried yr iaith yn rhywbeth ar gyfer eu plant ond nid iddynt hwy, a'r rhai sy'n fwy ymrwymedig i'r iaith eu hunain. Mae'r ail garfan yn fwy tebygol i gefnogi eu plant i ddefnyddio'r iaith darged y tu allan i'r ysgol, ac yn aml yn gwneud ymdrech i ddysgu rhywfaint o'r iaith eu hunain. Mae agweddau rhieni, yn eu tro, yn llywio sut mae'r plentyn yn gweld yr iaith hefyd, fel rhywbeth sydd á lle yn eu bywyd y tu allan i'r ysgol neu rywbeth sy'n perthyn i'r ysgol yn unig (Davies, 2022).

Noda McPhee (2021) y gall agweddau cadarnhaol rhieni at yr iaith darged gyfrannu at ddatblygiad eu plant yn yr iaith honno, hyd yn oed os nad yw'r rhieni yn siarad yr iaith eu hunain. Pwysleisia May *et al*. (2004) bwysigrwydd cefnogaeth rhieni mewn addysg drochi hwyr Maori, a'u hymrwymiad i amcanion ieithyddol a diwylliannol yr ysgol.

Un o'r rhesymau pam fod rhieni amlieithog yn astudiaeth Ní Dhiorbháin (2023) yn Iwerddon wedi dewis addysg trwy gyfrwng Gwyddeleg oedd y gred bod dysgu ieithoedd ychwanegol yn cynyddu datblygiad sgiliau gwybyddol a meta-ieithyddol, er na fanylant ar y buddion hyn. Er bod y Wyddeleg yn iaith leiafrifol gyda defnydd cyfyngedig, teimlant fod yr iaith yn dod â buddion gwybyddol a chymdeithasol-ddiwylliannol. Credant y byddai'r plant yn magu sgiliau ieithyddol y gallent eu

trosglwyddo i ieithoedd eraill, ac y byddai hefyd yn rhoi rhagor o gyfleoedd gwaith iddynt yn y dyfodol.

2.4.1.1 Pwyntiau trafod

Roedd tipyn o dystiolaeth bod cymhelliant dysgwyr sydd wedi dewis trochi hwyr i lwyddo yn yr iaith yn ffactor sy'n arwain at effeithiolrwydd darpariaeth trochi hwyr. Roedd peth dystiolaeth am ddylanwad diwylliant poblogaidd ar agweddau dysgwyr tuag at yr iaith a thystiolaeth gref am bwysigrwydd agweddau cadarnhaol rhieni tuag at yr iaith darged a dylanwad hyn, yn ei dro, ar agweddau'r dysgwyr tuag at yr iaith.

2.4.2 Beth yw cyfraniad cyd-destun sosio-ieithyddol y dysgwyr ac agweddau'r gymdeithas ehangach tuag at yr iaith?

Roedd dwy astudiaeth yn trafod cyd-destun sosio-ieithyddol y dysgwyr ac agweddau'r gymdeithas ehangach tuag at yr iaith.

Dangosodd un astudiaeth y gall agweddau negyddol y gymdeithas ehangach at 'siaradwyr newydd', gan gynnwys agweddau athrawon, effeithio ar gyfleodd i ddysgwyr ddefnyddio'r iaith darged a'u hagweddau tuag yr iaith. Dengys Dołowy-Rybińska (2018) fod disgwyliadau isel am gyrhaeddiad dysgwyr, neu anfodlonrwydd i'w derbyn yn rhan o'r gymuned, yn gallu cyfyngu ar y cyfleoedd iddynt ddysgu ac ymarfer yr iaith darged, ac ar eu hagweddau at yr iaith, fel y gwelwyd yn ei astudiaeth gyda phlant o deuluoedd Almaeneg mewn ysgolion Sorbeg. Dim ond 50% o'r dysgwyr a oedd yn mwynhau'r gwersi Sorbeg, gyda rhai yn beio'r diffyg cyfleoedd i siarad, ymhlith pethau eraill megis cynnwys yr addysgu.

Dangosodd un astudiaeth fod defnydd dysgwyr o'r iaith darged y tu allan i'r ysgol yn effeithio ar eu sgiliau yn yr iaith. Noda astudiaeth Slavkov (2016) fod dysgwyr nad ydynt yn defnyddio'r iaith y tu allan i'r ysgol gyda theulu neu ffrindiau'n fwy tebygol o ddatblygu'n oddefol ddwyieithog, hynny yw rhai sy'n deall yr iaith, ond á gallu cyfyngedig i'w siarad.

2.4.2.1 Pwyntiau trafod

Roedd ychydig o dystiolaeth am rôl cyd-destun sosio-ieithyddol y dysgwyr ac agweddau'r gymdeithas ehangach tuag at yr iaith. Canfuwyd bod agweddau negyddol yn effeithio ar ddefnydd pobl ifanc o'r iaith darged a'i hagweddau tuag at yr iaith. Canfuwyd hefyd bod diffyg defnydd o'r iaith y tu allan i'r ysgol yn cael effaith negyddol ar sgiliau iaith dysgwyr.

Mae gallu cynhenid, cefndir sosio-ieithyddol, ac agweddau'r teulu a'r gymdeithas ehangach, yn golygu bod profiad dysgu'r iaith darged yn wahanol i bob dysgwr; mae'n bwysig felly i ddarpariaeth drochi hwyr roi sylw i anghenion pob dysgwyr, lle bo modd.

2.5 Ffactorau o fewn reolaeth darparwyr: Pa fodelau a dulliau addysgu, a pha gefnogaeth sy'n arwain at y deilliannau gorau ar wahanol oedrannau?

Roedd tipyn o'r dystiolaeth a oedd yn sail i'r papur hwn yn archwilio ffactorau o fewn reolaeth y darparwyr, sef modelau a dulliau addysgu, cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r iaith y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, darpariaeth ôl-ofal a chefnogaeth yn y brif ffrwd. Roedd adolygiad Rhys (2021) yn cyffwrdd ar ddulliau addysgu mewn addysg drochi hwyr ac mae'r papur hwn yn adeiladu ar hyn trwy ddadansoddi dulliau yn ôl oedran dysgwyr. Mae'r papur hefyd yn rhoi sylw i elfennau ychwanegol o'r profiad trochi megis cyfleodd cymdeithasol i ddefnyddio'r iaith y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, a darpariaeth ôl-ofal a chefnogaeth yn y prif ffrwd. Mae'r papur hefyd yn adeiladu ar ganfyddiadau adolygiad Rhys (2021) am gefnogaeth i rieni, trwy nodi problemau posib sydd angen eu goresgyn. Mae adolygiad Jones *et al*. (2023) yn trafod dulliau a chyrchddulliau effeithiol ar gyfer dysgwyr trochi. Mae rhan fwyaf y dystiolaeth yn ffocysu ar drochi cynnar ond mae hefyd peth wybodaeth am drochi cynnar.

Mae addysg drochi'n amrywio yn ôl dwyster, hyd a phwynt dechrau. Nid oedd yr eitemau yn cymharu effeithiolrwydd modelau gwahanol ond yn canolbwyntio ar un model. Roedd rhan fwyaf yr eitemau yn trafod modelau trochi llawn amser, yn cwmpasu addysg Maori, Catalwneg, Gwyddeleg, Gaeleg yr Alban, Basgeg ac iaith frodorol Hawaii.

2.5.1 Pa sgiliau sydd fwyaf perthnasol i ddysgu iaith ar wahanol oedrannau mewn addysg drochi hwyr?

Dengys y dystiolaeth fod dulliau addysgu gwahanol yn effeithiol ar gyfer dysgwyr iau a dysgwyr hŷn. Tra bo dysgwyr ifanc yn dibynnu mwy ar y cof, mae dysgwyr hŷn yn dueddol i ddibynnu mwy ar allu gwybyddol i gyflymu eu dysgu. Astudiodd Harley a Hart (1997) y berthynas rhwng gallu gwybyddol a hyfedredd mewn ail iaith ymhlith dysgwyr 16 oed yn yr UDA a oedd wedi dechrau addysg drochi yn Ffrangeg naill ai'n 5 oed yn yr ysgol gynradd, neu ar ddechrau'r ysgol uwchradd yn 11 oed. Defnyddiwyd profion cof a phrofion o allu i ddadansoddi strwythur iaith gyda'r ddau grŵp yn ogystal â phrofion hyfedredd Ffrangeg, gan gynnwys geirfa, gwrando, darllen ac ysgrifennu, a phrofion siarad gyda grŵp llai. Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng lefel hyfedredd iaith y dysgwyr trochi cynnar a hwyr. Fodd bynnag, nodwyd ei fod yn bosib bod y dysgwyr trochi hwyr yn grŵp mwy dethol gyda thueddfryd uwch yn gyffredinol, a gallai hyn wedi effeithio ar y canlyniadau. Canfu fod sgiliau dadansoddi iaith yn fwy debygol o fod yn rhagfynegydd o allu dysgwyr trochi hwyr, tra bod mesurau'r cof yn fwy debygol o fod yn rhagfynegydd o allu i ddysgwyr trochi cynnar. Roedd hyn yn cyd-fynd â theori cyfnod critigol ar gyfer caffael iaith, sy'n dadlau bod dysgu iaith yn hwyrach yn defnyddio galluoedd gwybyddol gwahanol i ddysgu'n iau.

Yn ei ddadansoddiad o'r dystiolaeth ryngwladol, atgyfnerthodd Dixon *et al.* (2012) fod dysgwyr sy'n dechrau dysgu trochi yn gynnar (tua 5 oed) yn dibynnu mwy ar y cof tra bod dysgwyr sy'n derbyn addysg drochi yn 11 oed yn defnyddio mwy o sgiliau dadansoddol, er bod y ddau fath o sgiliau'n chwarae rhan yn y broses o ddysgu i bawb ar wahân i blant ifanc iawn.

Dadleuodd Lindholm-Leary a Genesee (2014) hefyd mewn dadansoddiad o'r dystiolaeth ryngwladol fod dysgu Ffrangeg trwy drochi ar lefel uwchradd (11 oed neu'n hŷn) yn ymofyn sgiliau gwybyddol uwch nag ar lefel cynradd, ac o ganlyniad y dysgwyr sydd â sgiliau mwy academaidd sy'n cyrraedd lefelau uwch.

2.5.1.1 Pwyntiau trafod

Nid yw'r dystiolaeth yn cymharu effeithiolrwydd dulliau addysg amrywiol. Mae tystiolaeth gref am yr angen i fabwysiadu dulliau addysgu sy'n defnyddio sgiliau gwybyddol dysgwyr, yn hytrach na sgiliau'r cof.

2.5.2 Beth yw perthynas dulliau addysgu â hyfedredd ieithyddol dysgwyr?

Dengys y dystiolaeth bod angen i ddarpariaeth drochi lwyddiannus roi sylw i ddulliau addysgu er mwyn rhoi'r amodau gorau i ddysgwyr gaffael yr iaith darged yn gyflym ac yn effeithiol. Dengys y gall ddulliau'r addysgu gael mwy o effaith na dwyster y trochi. Canfu Lindholme-Leary a Genesee (2014) fod sefyllfa drochi ym Montreal sy'n cynnig addysg drochi Ffrangeg 50% o'r diwrnod ac sy'n defnyddio dulliau dysgu dysgwr-ganolog, yn fwy effeithiol na darpariaeth drochi yn yr un ddinas a oedd yn trochi 80% o'r amser gan ddefnyddio dulliau athro-ganolog.

Un dull addysgu a drafodwyd yn y dystiolaeth oedd dysgu integreiddio cynnwys ac iaith (CLIL). Golyga CLIL ddefnyddio'r iaith darged fel cyfrwng i gyflwyno pynciau eraill h.y. dysgu cynnwys ar yr un pryd ag iaith. Roedd un astudiaeth yn adolygiad Rhys (2021) yn cyfeirio at y dull hwn a chasglwyd ei fod yn arwain at ddealltwriaeth ddyfnach o'r iaith darged a'r iaith gyntaf, gan gynnwys gramadeg. Casglodd adroddiad Jones *et al.* (2021) fod CLIL yn fodd o ddatblygu hyder dysgwyr yn yr iaith darged a datblygu medrau ieithyddol. Adeiladir ar ganfyddiadau Rhys (2021) a Jones *et al.* (2021) trwy archwilio CLIL yn nhermau hyfedredd ieithyddol dysgwyr (er ar lefel uchel).

Roedd dwy astudiaeth ac un dadansoddiad o'r dystiolaeth ryngwladol yn rhoi sylw i'r dull hwn yn y sail dystiolaeth ar gyfer y papur hwn. Dengys y dystiolaeth fod rhaid gochel rhag rhoi gormod o bwyslais ar gynnwys ar draul yr iaith darged. Yn ôl dadansoddiad o'r dystiolaeth ryngwladol gan Lyster a Tedick (2014), er mwyn i ddysgwyr wneud cynnydd yn yr iaith darged yn ogystal â'r cynnwys, rhaid sicrhau rhoi sylw i'r iaith ym mhob gwers hyd at y pwynt lle mae'r dysgwyr yn cyrraedd lefel uchel o ruglder (er na fanylwyd ar beth oedd hyn yn ei olygu).

Gall gael cyfnod dwys o ddysgu'r iaith darged ar ddechrau cyfnod yr addysgu a chyflwyno'r gwaith cwricwlaidd yn raddol gynyddu effeithiolrwydd CLIL. Dadleuodd Wannagat (2007) y dylid cyflwyno CLIL yn raddol, wrth i hyfedredd dysgwyr yn yr iaith gynyddu, ond ni fanylir ar hyn.

Disgrifiodd Williams (2002) un model ar gyfer mabwysiadu CLIL fel rhan o addysg drochi hwyr, sef addasu'r cwricwlwm dros dro. Roedd yr ysgol dan sylw yn cyfuno Hanes, Daearyddiaeth a Drama mewn cwrs integredig gyda'r Gymraeg ac yn gohirio dechrau dysgu Ffrangeg tan yr haf, gyda darpariaeth ddwysach yn y pwnc y flwyddyn ganlynol. Ar ôl dwy flynedd o drochi ar wahân, penderfynwyd bod y dysgwyr a lefel digon uchel o hyfedredd ieithyddol fel eu bod yn barod i ymuno â'r brif ffrwd a dysgu'r cwricwlwm arferol.

Nododd Williams (2002), wrth addysgu pynciau ymarferol fel Addysg Gorfforol, gall athrawon ddefnyddio iaith syml ond naturiol wrth ddangos sgiliau corfforol, sy'n rhoi cyfle i'r dysgwyr ddilyn y wers heb orfod pryderu'n ormodol am yr iaith.

2.5.2.1 Pwyntiau trafod

Mae ychydig o dystiolaeth am ddulliau addysgu yn ôl hyfedredd ieithyddol. Dengys er mwyn defnyddio CLIL yn llwyddiannus, rhaid i ddysgwyr gael lefel uchel o hyfedredd ieithyddol, ond ni fanylir ar beth mae hyn yn ei olygu.

2.5.3 Beth yw perthynas dulliau addysgu á hyder dysgwyr yn yr iaith darged?

Rhoddir sylw i sgiliau cyfathrebu ar lafar yn adolygiad Rhys (2021). Trafodir addysgu iaith gyfathrebol fel rhan o ddarpariaeth drochi hwyr fel dull sy'n anodd cyfathrebu ar lafar yn ddigymell, sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio'r iaith mewn ffordd ddilys ac sy'n meithrin hyder dysgwyr yn yr iaith.

Roedd dwy astudiaeth a oedd yn sail i'r papur hwn yn cyffwrdd, heb fanylu, ar bwysigrwydd datblygu sgiliau cyfathrebu ac roedd faint o bwyslais roedd sefyllfaoedd trochi'n rhoi ar gyfathrebu'n amrywio (Bishop *et al*., 2002; Macintyre *et al*. 2002). Cyfeiriodd astudiaeth, adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol a throsolwg o Hong Kong at y pwynt nad oedd digon o bwyslais ar feithrin sgiliau siarad fel rhan o ddarpariaeth drochi (Wannagat, 2007; Johnson a Swain, 1994; Kong, 2008). Nododd drosolwg o ddarpariaeth drochi yng Nghanada gan Genesee (1983) nad oedd rhai o'r dysgwyr yn teimlo bod yr iaith a ddysgwyd yn yr ysgol yn addas ar gyfer cyfathrebu y tu allan i'r dosbarth.

Noda Johnstone (2002) yn ei adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol mai un o nodweddion addysg drochi yw bod yr iaith darged yn cael ei chyfyngu i'r ystafell `ddosbarth gan fwyaf. Noda Lindholm-Leary a Genesee (2014, t.175) fod amlygrwydd at yr ail iaith yn bwysicach mewn iaith leiafrifol neu leiafrifiedig, gan nad yw'r iaith yn rhan gyson o fywyd bob dydd. Fel arfer, y tu allan i'r ysgol, mae plant yn defnyddio'r iaith fwyafrifol (a hynny'n teimlo'n naturiol iddynt) tra bod defnyddio'r iaith leiafrifol yn gofyn iddynt fynd allan o'u ffordd i ddod o hyd iddi. Er mwyn i'r dysgwyr allu fanteisio ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ysgol mewn cymunedau lle nad oes llawer o gyfle i ddefnyddio'r iaith, dadleua Williams (2002) ei fod yn bwysig i ysgolion addysgu sgiliau cyfathrebu addas i ddysgwyr, gan roi sylw i'r math o iaith, sef Sgiliau Rhyngbersonol Sylfaenol Cyfathrebu (Basic Interpersonal Communicative Skills, neu BICS), sydd angen arnynt er mwyn gwneud hyn, yn ogystal â Hyfedredd Gwybyddol Iaith Academaidd (Cognitive Academic Language Proficiency, neu CALP).

Roedd dwy eitem – dadansoddiad o'r dystiolaeth ryngwladol a dadansoddiad o'r dystiolaeth genedlaethol yng Nghanada - yn rhoi sylw i ystyriaethau am gywiro gwallau fel rhan o ddarpariaeth trochi hwyr, sef faint ac ym mha ffordd y dylent gywiro gwallau. Mae hyn yn ddull ychwanegol i'r hyn a drafodir yn adroddiad Rhys (2021). Dengys y dystiolaeth fod angen rhoi sylw i wallau ieithyddol er mwyn gwella iaith dysgwyr. Mae Lyster a Tedick (2014) yn nodi nad oedd hyn yn flaenoriaeth yng Nghanada ym mlynyddoedd cynnar addysg drochi. Nodwyd bod lefelau cywirdeb gramadegol, amrywiaeth eirfa a gallu sosio-ieithyddol dysgwyr trochi cynnar Canada wedi bod yn is na'r disgwyl, a chasglwyd felly bod angen rhoi mwy o sylw i

bedagogeg trochi, ac ymhlith hyn, gywiro gwallau i gaffael yr iaith yn fwy effeithiol (Lyster a Tedick, 2014).

Er bod pwyslais ar gyfathrebu mewn addysg drochi hwyr, nid yw rhuglder mewn cyfathrebu a sgiliau ieithyddol (sef, dealltwriaeth o strwythur yr iaith a chywirdeb gramadegol) yn datblygu ar yr un raddfa (Genesee 1983). Dangosodd y dystiolaeth ei fod yn bwysig dod o hyd i ffordd o gywiro iaith heb danseilio hyder y disgybl. Ffordd adeiladol o wneud hyn, yn ôl Lyster a Tedick (2014) yw tynnu sylw'r dysgwr at y gwall a'i annog i'w gywiro, yn hytrach na rhoi'r ffurf gywir iddynt yn syth. Gall weithio mewn parau hefyd bod yn gymorth i ddysgwyr gywiro iaith eu gilydd, gan ddibynnu wrth gwrs ar ddeinamig y pâr.

2.5.3.1 Pwyntiau trafod

Roedd sawl eitem o dystiolaeth yn pwysleisio pwysigrwydd meithrin sgiliau cyfathrebu er mwyn galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd y tu allan i'r dosbarth. Dylai ddarparwyr trochi hwyr parhau i sicrhau, felly, eu bod yn rhoi sylw digonol i feithrin sgiliau cyfathrebu dysgwyr. Mae gan drochi hwyr rôl bwysig i'w chwarae i gyfrannu at un o nodau Deddf y Gymraeg ac Addysg (2025) o roi cyfle teg i bob dysgwr ddod yn siaradwr Cymraeg.

Dengys y dystiolaeth hefyd bod rhoi sylw i gywirdeb ieithyddol yn bwysig, ond rhaid tynnu sylw at wallau mewn ffordd sydd ddim yn tanseilio hyder dysgwyr nac yn eu rhwystro i arbrofi â'r iaith.

2.5.4 Defnydd iaith gyntaf fel rhan o'r ddarpariaeth drochi

Cyfeiriodd adolygiad Rhys (2021) at ddefnydd yr iaith gyntaf wrth drochi, trwy drawsieithu, gan amlinellu cyfres o egwyddorion i'w mabwysiadu yn achos ieithoedd lleiafrifol rhanbarthol. Cyfeiriodd adroddiad Jones *et al.* (2021) hefyd at ddefnydd yr iaith gyntaf fel rhan o ddarpariaeth drochi hwyr fel cymorth i gaffael geirfa, pan fo cysyniad gyda chysylltiad label cryf mewn iaith gyntaf. Adeilada'r papur hwn ar y dadleuon o blaid ac yn erbyn defnydd yr iaith gyntaf fel rhan o ddarpariaeth drochi gan dynnu ar ddau ddadansoddiad o'r dystiolaeth ryngwladol ac un trosolwg o drochi yn Hong Kong a Chanada.

Dengys y dystiolaeth dyndra am ddefnydd iaith gyntaf dysgwyr ac roedd diffyg consensws am ei rôl – gall gynorthwyo dysgu'r iaith gyntaf ond gall orddefnydd o'r iaith gyntaf leihau defnydd y dysgwyr o'r iaith darged. Mae defnydd gofalus o'r iaith gyntaf yn gallu bod yn fodd o gyflwyno geirfa newydd ac i sicrhau dealltwriaeth gofynion hanfodol (Lyster a Tedick, 2014). Mae Johnson a Swain (1994) hefyd yn cydnabod y gall defnydd dethol o'r iaith gyntaf fod yn ddefnyddiol, ond mae ei orddefnyddio'n lleihau amlygrwydd y dysgwyr at yr iaith darged.

Ceir un astudiaeth sy'n trafod trawsieithu. Noda Cenoz a Gorter (2017) mai un o bryderon wrth ganiatáu defnydd iaith fwyafrifol mewn dosbarth trochi yng nghyd-destun trawsieithu yw y gall gynyddu'r temtasiwn i gyfnewid côd, gan greu pethau fel "Euskañol" (neu "Wenglish") sydd i'w weld gan rai yn fygythiad i'r iaith leiafrifol. Cynigia'r awduron rhai egwyddorion er mwyn osgoi hyn a strategaethau i osgoi gorddefnyddio'r iaith gyntaf. Gall ysgolion greu gofodau lle mae'n rhaid siarad yr iaith leiafrifol yn unig yn lle derbyn trawsieithu ym mhob sefyllfa, gan greu gofod anadlu i'r

iaith. Ni ddylid cyfieithu popeth i'r iaith gyntaf - dim ond digon i sicrhau dealltwriaeth lle bo angen.

Cyfeiriodd un astudiaeth at sgaffaldio dros dro i osgoi defnyddio gormod o'r iaith gyntaf mewn addysg drochi. Gall y sgaffaldio gynnwys dulliau ieithyddol, megis ailadrodd, ail eirio, defnyddio amrywiaeth o enghreifftiau, neu rhai di-iaith, er enghraifft adnoddau gweledol, ystumiau, neu adnoddau amlgyfrwng (Lyster a Tedick, 2014).

2.5.4.1 Pwyntiau trafod

Dengys y dystiolaeth dyndra am ddefnydd iaith gyntaf dysgwyr. Nid oedd consensws am rôl yr iaith gyntaf mewn darpariaeth drochi hwyr. Gall defnydd priodol o iaith gyntaf y disgyblion fod yn fuddiol er mwyn cynyddu dealltwriaeth ac atgyfnerthu'r iaith darged, ond ni ddylid ei orddefnyddio.

Dengys bwysigrwydd ystyried priodoldeb defnyddio'r iaith gyntaf mewn trochi hwyr ar gyfer bob sefyllfa yn unigol. Dylid sicrhau bod athrawon llai profiadol yn cael yr hyder i benderfynu sut a phryd y mae'n addas.

2.5.5 Awyrgylch y dosbarth

Trafododd adroddiad Rhys (2021) cyfraniad awyrgylch ar lefel ysgol gyfan i effeithiolrwydd trochi hwyr ac ychwanega'r papur hwn at hyn trwy dair astudiaeth sy'n archwilio pwysigrwydd yr awyrgylch yn y dosbarth. Dengys y dystiolaeth fod ymwybyddiaeth o ddwyieithrwydd, cofleidio a pharchu amrywiaeth ac iaith gyntaf y dysgwr yn gymorth i'r dysgwyr deimlo'n gysurus a'u bod yn bwysig. Mae cael dosbarth croesawgar a chefnogol yn hwb, yn ei dro, i'r dysgwyr deimlo'n fentrus wrth ddefnyddio'r iaith darged. Wrth gymharu agweddau ysgolion cyfrwng Gwyddeleg a chyfrwng Saesneg yn Iwerddon at amlieithrwydd a derbyn dysgwyr trochi hwyr o dramor, nododd Gallagher a Leahy (2014), er bod yr ysgolion Saesneg yn parchu ac yn croesawu'r plant ac yn cofleidio amrywiaeth, roedd pwyslais ar integreiddio'r plant hyn yn hytrach na dathlu eu hieithoedd a'u diwylliannau. Roedd yr ysgolion cyfrwng Gwyddeleg, ar y llaw arall, yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd dwyieithrwydd. Rhoddant fwy o sylw i iaith yn gyffredinol a chydnabod y sgiliau ieithyddol a oedd gan y dysgwyr dwyieithog ac amlieithog.

Yn debyg, nododd Williams (2002) fod gosod dysgwyr i siarad mewn grwpiau bach neu mewn parau'n creu awyrgylch llai bygythiol na siarad o flaen dosbarth llawn, yn ogystal á rhoi mwy o gyfle iddynt ymarfer yr iaith.

Roedd creu awyrgylch hwylus yn nod flaenllaw i athrawon yr uned drochi gynradd yn astudiaeth Davies (2022) a'r dysgwyr yn awyddus i bwysleisio cymaint yr oeddent yn mwynhau'r profiad. Roedd yr athrawon yn gwneud hyn trwy neilltuo digon o amser i'r dysgwyr ddysgu trwy chwarae rôl, chwarae gemau, canu, a chyfathrebu â'i gilydd, yn ogystal â sesiynau dysgu mwy ffurfiol.

2.5.5.1 Pwyntiau trafod

Roedd tystiolaeth gref bod awyrgylch cadarnhaol yn y dosbarth trochi yn cyfrannu at effeithiolrwydd y ddarpariaeth. Rhoddir sawl enghraifft o sut i feithrin y fath awyrgylch.

2.5.6 Sut y gall cyfleoedd cymdeithasol y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ond sy'n rhan o'r ddarpariaeth drochi, gyfrannu at effeithiolrwydd addysg drochi hwyr?

Nododd adolygiad Rhys (2021) bwysigrwydd rhwydweithiau cymorth allanol fel rhan o ddarpariaeth addysgu iaith ddwys, megis gydag awdurdodau lleol, ac ychwanega'r papur hwn at hyn trwy nodi pwysigrwydd cyfleodd cymdeithasol y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ond sy'n rhan o'r ddarpariaeth drochi. Seilir y canfyddiadau yn yr adran hon ar un dadansoddiad o'r dystiolaeth genedlaethol yng Nghanada ac un astudiaeth, ac roedd yr adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol yn cyffwrdd ar hyn, heb fanylu.

Er bod cydnabyddiaeth bod defnyddio'r iaith darged y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn llesol, dengys y dystiolaeth nad yw pob sefyllfa drochi'n llwyddo i hwyluso hynny. Ers hynny, dengys yr ymchwil bod cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith darged y tu allan i'r ysgol yn cyfrannu at effeithiolrwydd darpariaeth drochi (Jones *et al*. 2023). Roedd rhai o'r rhaglenni treftadol, er enghraifft ysgolion Maori ac iaith Hawaii (May *et al.*, 2004; Pacific Policy Research Centre, 2010) wedi hybu partneriaeth gyda'r gymuned lleol er mwyn cynnig cyfleoedd i'r disgyblion siarad yr iaith darged yn y gymuned.

Nododd Williams (2002) bod ymweliad â Glan Llyn lle defnyddiwyd y Gymraeg yn gyfrwng iaith bob dydd mewn gweithgareddau amrywiol wedi bod yn drobwynt yn addysg y dysgwyr trochi hwyr yn ei hastudiaeth, gan gynyddu eu hyder i gyfathrebu.

Trafoda Genesee (1983) rhaglen drochi Ffrangeg wedi'i seilio ar 50% o'r amser ar ddarpariaeth drochi a 50% ar weithgareddau unigol a roddodd gyfleodd i'r dysgwyr y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Casglwyd bod y rhaglen hon wedi datblygu sgiliau'r dysgwyr yr un mor llwyddiannus mewn medrau siarad a gwrando, ac yn agos mewn darllen ac ysgrifennu, dros flwyddyn â dysgwyr trochi eraill a oedd yn treulio 80% o'r amser mewn addysg drochi.

2.5.6.1 Pwyntiau trafod

Roedd tystiolaeth gymharol gref am rôl cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith darged y tu allan i'r ystafell ddosbarth (ond fel rhan o'r ddarpariaeth) yn cynyddu hyder dysgwyr yn yr iaith a chynyddu eu defnydd ohoni.

2.5.7 Sut y gall gefnogaeth i rieni/gwarcheidwaid gyfrannu at effeithiolrwydd darpariaeth drochi hwyr eu plant?

Noda adroddiad Rhys (2021) bwysigrwydd cefnogaeth gan rieni mewn darpariaeth trochi hwyr. Mae'r papur yn archwilio hyn ymhellach trwy dad-bacio rôl rhieni a nodi materion posib y mae angen eu goresgyn. Seilir y canfyddiadau yn yr adran hon ar ddau adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol a thair astudiaeth.

Roedd sawl eitem yn sôn am bwysigrwydd cael perthynas gref a chadarnhaol rhwng yr ysgol a'r rhieni (e.e. May. 2004; Bishop *et al.* 2002; Johnstone, 2002). Pwysleisiwyd bod rôl bwysig iddynt chwarae yn cefnogi addysg eu plant, hyd yn oed os nad ydynt yn siarad yr iaith darged. Dengys Ní Dhiorbháin *et al*. (2023) fanteision cael cysylltiad agos rhwng athrawon a rhieni cyn i'r plant ddechrau yn yr ysgol ac yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Yn eu hastudiaeth, roedd y cysylltiad rhwng rhieni o dramor ac athrawon mewn ysgol drochi Gwyddeleg wedi bod yn hwb iddynt ddewis addysg drochi i'w plant a chadw eu plant mewn addysg drochi hwyr.

Gall berthynas gref gyda rhieni fod yn gymorth i osgoi camddealltwriaethau a lleddfu eu pryderon am drochi. Noda Cammarata (2025) sawl camddealltwriaeth a all arwain at rieni yn symud, neu ystyried symud eu plant, allan o addysg drochi hwyr (a chynnar). Un problem yw nad yw rhieni yn ymwybodol faint o amser y bydd yn cymryd i blentyn gyrraedd hyfedredd yn yr iaith darged. Gofid arall yw na fydd eu plant yn gallu ymdopi mewn addysg uwch trwy gyfrwng yr iaith fwyafrifol (y Saesneg, yn yr achos hwn). Gall rhieni hefyd deimlo'n rhwystredig am nad ydynt yn gallu helpu eu plant gyda gwaith cartref gan nad ydynt yn siarad yr iaith darged. Prydera rhieni eraill na fydd yr ysgol yn gallu cwrdd ag anghenion dysgu eu plant. Gall y problemau hyn gael eu gwaethygu gan y ffaith nad oedd rhan fwyaf y rhieni hyn yn teimlo bod modd neu bod angen trafod y rhain gyda'r ysgol.

2.5.7.1 Pwyntiau trafod

Dengys y dystiolaeth bwysigrwydd cysylltiad agos a chyfathrebu á rhieni cyn ac yn ystod y cyfnod trochi. Dylai unedau trochi hwyr ystyried ffyrdd i feithrin perthynas a chysylltiad agos â rhieni/gwarcheidwaid. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun Deddf y Gymraeg ac Addysg (2025) sy'n rhoi cyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol i annog galw am addysg drochi hwyr a chyfranogiad ynddi.

Dylai unedau trochi hwyr godi ymwybyddiaeth o ddeilliannau disgwyliedig darpariaeth drochi hwyr, gan wneud hyn mewn ffordd sy'n hygyrch i rieni ac sy'n cymryd i ystyriaeth mai'r ysgol yw'r sianel gyswllt i rieni, yn hytrach na'r uned drochi. Byddai hyn yn cyfrannu at y cyfrifoldeb yn y Ddeddf o ddarparu gwybodaeth a chyngor am y ddarpariaeth i rieni a gwarcheidwaid. Mae hefyd angen ystyried pa fath o wybodaeth arall y byddai'n fuddiol i'w rhoi i rieni/warcheidwaid plant mewn addysg drochi er mwyn osgoi'r camddealltwriaethau posib uchod, a'i chyfathrebu mewn ffyrdd hygyrch.

2.5.8 Sut mae darpariaeth ôl-ofal a chefnogaeth ar ôl y cyfnod trochi hwyr yn effeithio ar y lefelau ieithyddol mae dysgwyr yn eu cyrraedd?

Seilir y wybodaeth yn yr adran hon ar ddwy astudiaeth, adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol a dadansoddiad o'r dystiolaeth ryngwladol.

Dengys un astudiaeth bwysigrwydd cysylltiad cryf rhwng unedau neu ddosbarthiadau trochi ac addysgwyr prif ffrwd er mwyn sicrhau cefnogaeth addas ar ôl cyfnod cychwynnol trochi. Yn yr uned drochi gynradd a archwiliwyd gan Davies (2022), roedd yr athrawon yn ymwybodol iawn mai eu rôl oedd paratoi'r dysgwyr ar gyfer y cam nesaf. Cadwant gysylltiad agos gyda'r 'fam ysgol', â'r dysgwyr yn treulio diwrnod yr wythnos yno, a chadwant mewn cysylltiad â'r dysgwyr ar ôl iddynt drosglwyddo i'r brif ffrwd, rhag ofn iddynt angen rhagor o gymorth.

Wrth i ddysgwyr Cymru drosglwyddo o uned drochi i addysg brif ffrwd, derbyniant wersi mewn pynciau gan athrawon nad ydynt yn athrawon iaith arbenigol. Yn enwedig ar ddechrau profiad dysgwyr yn y brif ffrwd, mae'n bwysig i'r athrawon hyn fod yn ymwybodol o'u rôl yn parhau i ddysgu'r iaith i'r dysgwyr, yn ogystal â chynnwys. Dengys y dystiolaeth ei fod yn bwysig i athrawon prif ffrwd dderbyn hyfforddiant arbennig ar sut i integreiddio addysgu iaith a chynnwys er mwyn eu paratoi ar gyfer y rôl hon (e.e. May *et al*., 2004; Lyster a Tedick, 2014; Edwards, 2014).

2.5.8.1 Pwyntiau trafod

Dengys y dystiolaeth bwysigrwydd darpariaeth ôl-ofal a chefnogaeth yn y brif ffrwd. Rhaid cofio na fydd dysgwyr trochi hwyr yn cyrraedd yr un lefelau hyfedredd â'u cyfoedion yn y brif ffrwd erbyn diwedd y cyfnod trochi, felly mae gan ddarpariaeth ôl-ofal gyfraniad hollbwysig at effeithiolrwydd y ddarpariaeth.

Dylai ysgolion hefyd sicrhau eu bod yn rhoi cefnogaeth i ddysgwyr sydd newydd drosglwyddo i'r brif ffrwd. Byddai cael aelod staff sy'n bwynt cyswllt â'r unedau trochi yn gymorth, yn ogystal â staff sydd â sgiliau arbenigol ar drochi hwyr yn y brif ffrwd.

3 Rhestr Gyfeiriadau

Cummins, J. (2007). Rethinking monolingual instructional strategies in multilingual classrooms. *Canadian Journal of Applied Linguistics*, *10*, 221–241.

Gardner, R.C. and Lambert, W.E., (1972). *Attitudes and motivation in second-language learning*. Manceinion: Newbury House Publishers.

Jones, K., Jones, I., Rhys, M., Young, K. a Pierce, A. (2023). *Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Cyrchddulliau a dulliau effeithiol mewn addysg drochi*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 37/2024. Ar gael : https://www.llyw.cymru/cyrchddulliau-dulliau-effeithiol-mewn-addysg-drochi-asesiad-cyflym-or-dystiolaeth

Llywodraeth Cymru (2017) *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2019) Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Rhys, M. (2021). Trochi Hwyr a Darpariaeth Ieithyddol Ddwys: Adolygiad Cwmpasu Cyflym. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR rhif adroddiad 39/2021. Ar gael: Trochi hwyr a darpariaeth ieithyddol ddwys: adolygiad cwmpasu cyflym | LLYW.CYMRU

Young, K. (2021) *Addysg cyfrwng Cymraeg drwy drochi hwyr: mapio'r ddarpariaeth yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 70/2021. Ar gael yn: https://llyw.cymru/addysg-cyfrwng-cymraeg-drwy-drochi-hwyr-mapior-ddarpariaeth-yng-nghymru